



## Capel Y Tabernacl Efail Isaf

15 Ionawr 2017

**Diolch yn fawr iawn i Ceri Anwen, ac i Gwerfyl a Tomos Morse am drefnu oedfa'r bore 'ma. Bydd te/coffi yn y ganolfan yn syth wedi'r oedfa.**

**Mae croeso i chi hyrwyddo gweithgareddau ein cymuned trwy'r daflen wythnosol. Ebostiwch [geraintrees@hotmail.com](mailto:geraintrees@hotmail.com).**

### Tafod y Tab

Mae rhifyn mis Ionawr o **Tafod y Tab** newydd ei gyhoeddi. Holwch eich Gofalwr Ardal lleol am gopi. Os nad ydych ar restr un o'r dosbarthwyr lleol, cewch gopi gan Lowri Roberts neu Emlyn Davies. Diolch yn fawr i Emlyn ac Ann am eu gwaith wrth baratoi'r rhifyn ac am y cyfraniadau a ddaeth i law.

### Bwrdd Cyfarwyddwyr

Bydd y cyfarfod nesaf am 7.30 nos Fawrth 17 Ionawr. Rhowch wybod i Gwilym Huws os oes rhywbeth y teimlwch y dylid ei drafod yno. Diolch.



### Y SULIAU NESAF

- Ionawr 22ain** – Y Prifardd Mererid Hopwood gydag Iwan Rowlands yn llywyddu. Bethan yn cyfeilio
- Ionawr 29** Rhiannon Humphreys yn llywyddu, y Parchg. Gethin Rhys, a Sian yn cyfeilio
- Chwefror 5ed** – Carol Williams yn llywyddu, myfyrdod gan Emlyn
- Chwefror 12fed** – Carwyn Lloyd Jones yn llywyddu, myfyrdod gan y Parchg. Aled Edwards
- Chwefror 19** – Oedfa deuluol gyda Dafydd a Lowri Roberts
- Chwefror 26ain** – Bethan Herbert yn llywyddu, myfyrdod gan y Parchg. Gethin Rhys

### Y PWYLLGOR GOFAL

Bydd cyfarfod nesaf y pwyllgor gofal yn y ganolfan, bawn Sul Ionawr 22 am 2 o'r gloch Mae'r criw yn awyddus iawn i ddenu aelodau newydd – yn enwedig o blith rhieni'r Ysgol Sul. Nod y grwp yw cynnig gofal ac estyn llaw. Am fanylion pellach cysylltwch â Lowri ar [lowri@glancreigiau.plus.com](mailto:lowri@glancreigiau.plus.com)

### NEWYDDION TEULUOL

**Mae Penri Williams yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Estynnwn ein dymuniadau gorau iddo.**



### DAL I GASGLU

**Mae'r casglu'n parhau ar gyfer Teuluoedd mewn Argyfwng a phrosiect Adref. Os oes gennych ddillad plant, dillad gwely, sachau cysgu, neu nwyddau ymolchi, mae modd i chi eu gadael yn llofft y capel fel arfer, a bydd John yn sicrhau eu bod yn cyrraedd pen eu taith. Diolch i chi am eich cefnogaeth.**

## MERCHED Y TABERNAACL

Ionawr 31 am un o'r gloch  
**Cyngerdd awr ginio  
yn Neuadd Dewi Sant.**

Sioned Gwen Davies.

Hi fydd yn cynrychioli Cymru yn  
'Canwr y Byd' 2017.



EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU  
ARDAL PEN-Y-BONT AR OGWR, TAF AC ELÁI 2017



### **Twmpath ac Ocsiwn Auction & Barn Dance**

**Nos Sadwrn, Ionawr 21<sup>ain</sup>  
Saturday Evening, January 21<sup>st</sup>**

**Neuadd Dowlais  
Llanilltud Faerdref / Llantwit Fardre**



**Dathlwch ddydd Santes Dwynwen  
Hwyl i bawb, hen ac ifanc  
Bar, Hot Dogs  
Fun for the whole family**

*An auction and barn dance to raise money for the local appeal for  
the youth Eisteddfod in summer 2017*

**£3 oedolion/ adults, £1 plant/ children  
Dechrau - 7pm - Start**



Manylion yr Ocsiwn i ddod ar **facebook**: Twmpath & Ocsiwn Santes Dwynwen



**CYLCH CADWGAN**

**Nos Wener 20 Ionawr 2017 am 8.00pm.**

**Dr WYNNE DAVIES**

**yn siarad ar y testun:  
'Ar gefn ei geffyl'  
yn Y Ganolfan, Tabernacl, Efail Isaf**

Cofiwch fod pob gwybodaeth am fywyd yr  
eglwys ar gael ar y wefan, [www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org) ac  
os hoffech chi ragor o fanylion am unrhyw  
agwedd, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Gwilym  
Huws: [gehpengwern@yahoo.co.uk/](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk/)  
**07710 237327**

**Os ydych yn gwybod am newyddion i'w  
rannu er mwyn hwyluso'n gallu i gefnogi'n  
gilydd a'n cymuned, plis rhwch wybod.  
Mae'r pwyllgor gofal yn frwd i gefnogi  
mewn ffyrdd personol fesul pentref, a'r  
gweithgor cyfiawnder  
cymdeithasol/elusennau yn barod iawn eu  
cefnogaeth hwythau mewn ffyrdd eraill.**

#### **Y Safle**

Mae gofal safle'r capel wedi symud wrth Ann  
Dixey i Ioan Rees. Gallwch gysylltu â [Ioan ar  
07505 323299](mailto:Ioan ar 07505 323299)

Mae [bwció'r Ganolfan neu'r Capel](mailto:carolinerees2@hotmail.com) yn hawdd.  
Ffoniwch neu decstiwch 07816 341 527 neu  
07539 452130 neu [carolinerees2@hotmail.com](mailto:carolinerees2@hotmail.com)



### **PROSIECT YSGOLION CYMORTH CRISTNOGOL**

Mae Cymorth Cristnogol Cymru yn chwilio am  
wirfoddolwyr i helpu gyda fersiwn Gymraeg prosiect  
Cystadleuaeth Barddoniaeth Divine yn ysgolion  
Cymru. Y bwriad ydy cynyddu gwybodaeth plant  
ysgol am Nwyddau Masnach Deg. Mae'r wybodaeth i  
gyd mewn ebost o'r swyddfa yng Nghaerdydd  
anfonwyd ymlaen atoch yn ystod yr wythnos.